Drwy e-bost

22 Chwefror 2021

I bob canolfan sy'n cynnig, neu'n bwriadu cynnig cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (CBE) yng Nghymru o fis Medi 2021.

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom ysgrifennu atoch yn amlinellu'r trefniadau trosiannol yr oeddem wedi'u rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr a chanolfannau wrth gyflwyno'r cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru. Ers hynny, bu tarfu pellach ar addysgu a hyfforddi ledled Cymru oherwydd y cyfyngiadau symud newydd a'r newid i ddysgu ar-lein i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae Cymwysterau Cymru wedi ystyried yr effaith ar ddarparwyr ac, ar ôl ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, mae wedi diwygio'r trefniadau a fydd ar waith ar gyfer mis Medi eleni a mis Medi 2022 ynghylch argaeledd cymwysterau CBE cyfredol a newydd.

Wrth ystyried y trefniadau, rydym yn cydnabod yr heriau parhaus a wynebir gan y sector addysg a'r sectorau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu a achosir gan COVID-19. Rydym wedi trafod yr opsiynau sydd ar gael gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr dysgu, cyrff sector, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Roeddem hefyd am i'r trefniadau a amlinellir yn y llythyr hwn fod mor hyblyg â phosibl, gan osgoi'r angen am ragor o newidiadau.

Bydd y trefniadau canlynol ar waith ar gyfer mis Medi 2021:

- Byddwn yn caniatáu dynodi cymwysterau cyfredol am flwyddyn arall (tan 31 Mai 2022);
- Bydd y TGAU Amgylchedd Adeiledig newydd ar gael o fis Medi 2021;
- Bydd y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) a Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) ar gael o fis Medi 2021;

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

- Bydd y cymwysterau Adeiladu Lefel 3 a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 ar gyfer prentisiaethau yn cael eu gohirio am flwyddyn a byddant bellach ar gael i ganolfannau eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2022;
- Bydd Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig ar gael o fis Medi 2022 fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Er y byddwn yn caniatáu ymestyn dynodiad y cymwysterau presennol, byddem yn eich annog i ddechrau dysgwyr ar y cymwysterau newydd cyn gynted â phosibl gan y bydd hyn yn eu helpu i symud ymlaen i astudio a hyfforddi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gael trefniadau pontio addas ar gyfer dysgwyr ym mis Medi 2022. Rydym wedi ystyried yr holl broffiliau dysgwyr posibl ar gyfer mis Medi 2021 a mis Medi 2022 ac yn darparu ffeithlun yn Atodiad A yn amlinellu'r teithiau dilyniant y credwn fydd ar gael i ddysgwyr dros y tair blynedd nesaf.

Byddwn yn cynnal sesiynau Holi ac Ateb rhithwir am 4pm ar 8 Mawrth a 15 Mawrth i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych am y trefniadau hyn. I gael rhagor o wybodaeth am y cymwysterau newydd, ewch i wefan Sgiliau i Gymru.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr

TEITHIAU DYSGWYR SY'N DECHRAU YM MIS MEDI 2021



TEITHIAU DYSGWYR SY'N DECHRAU YM MIS MEDI 2022



NODIADAU ESBONIADOL

Mae'r diagramau'n dangos teithiau dysgwyr ar gyfer llwybrau galwedigaethol a gwmpesir gan y gyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Cysylltwch â ni am wybodaeth sy'n ymwneud â'n dull o ddynodi cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer teithiau dysgwyr mewn llwybrau galwedigaethol eraill ar datblygu@cymwysteraucymru.org.

CYFRES NEWYDD O GYMWYSTERAU

Mae manylion y cymwysterau Sylfaen, Dilyniant a phrentisiaeth newydd, sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, i'w gweld ar wefan Sgiliau i Gymru.

PRENTISIAETH (NEWYDD)

O fewn fframweithiau prentisiaeth newydd, bydd nifer o ofynion, gan gynnwys gofynion ar gyfer y cymwysterau a fydd yn cael eu dilyn. Yn dibynnu ar y daith a gymerir gan y dysgwr, gall rhai dysgwyr gael eu heithrio o rai o'r gofynion hyn.

CYMWYSTERAU CYFREDOL

Cymwysterau lefel 1 eang yw'r rhai sydd fel rheol yn cynnig profiadau generig neu aml-grefft sy'n cyflwyno dysgwyr i'r sectorau adeiladu neu beirianneg gwasanaethau adeiladu. Mae cymwysterau lefel 1 crefft-benodol fel arfer yn cynnig profiadau cymeradwy sy'n ymwneud ag un llwybr galwedigaethol penodol. Mae prentisiaethau cyfredol yn ymwneud â fframweithiau prentisiaeth gweithredol cyfredol, sydd fel arfer yn cynnig cymwysterau gwybodaeth a chymhwysedd (neu gymwysterau cyfunol), gan gynnwys NVQs, ar lefelau 2 a 3.